

# O. E. ROBERTS Pererin Mewn Gwlad Ddieithr


gan R. ELWYN HUGHES, Pentyrch

Bu farw Owen Elias Roberts 14 Hydref 2000 yn 92 oed. Prin fod y sylw pitw a dderbyniodd ei farwolaeth yn y wasg Gymreig ar y pryd wedi adlewyrchu ei le o bwys fel arloeswr ym myd cyflwyno gwyddoniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ganed O. E. Roberts yn Llanystumdwy a'i addysgu mewn ysgolion lleol. Yn gymharol ifanc symudodd i Lerpwl i ddechrau ar ei yrfa fel technegydd mewn labordy meddygol. Ni dderbyniodd unrhyw addysg uwch ffurfiol ond trwy gryn ddyfalbarhad ac ymroddiad llwyddodd i gyrraedd y brig ym maes technoleg ysbytai. Yn gyfochrog â hyn dechreuodd fagu diddordeb mewn ysgrifennu Cymraeg – ond ar bynciau cyffredinol i ddechrau, megis ei erthyglau ar deithio trwy Ogledd Cymru a gyhoeddwyd yn *Y Ford Gron* yn y tri degau.

Erbyn y pedwar degau roedd wedi dechrau ymhel â thrafod pynciau gwyddonol yn y Gymraeg. Enillodd sawl gwaith yn adran y llawlyfrau yn yr Eisteddfod Genedlaethol – megis yn 1948 (*Llawlyfr ar Fwydydd*) ac yn 1951 (*Llawlyfr ar Wyddor Gwlad*) – ac am nifer o flynyddoedd bu ganddo golofn wyddonol wythnosol yn *Y Cymro*. Cyhoeddodd ei lyfr cyntaf *Hela'r meicrob* yn 1945 a'i ddilyn yn 1947 gan *Dirgelwch yr atom* – y naill yn trafod pwnc biolegol a'r llall yn mentro i fyd ffiseg a'r ddau felly yn dyst i rychwant eang ei ddiddordebau gwyddonol. Enillodd Fedal Ryddiaith yr Eisteddfod Genedlaethol ddwywaith – yn 1952 (*Cyfrinachau Natur*) ac yn 1959 (*Y gŵr o Ystradgynlais* – ond odid ei gyhoeddiad mwyaf caboledig). Cyhoeddodd hefyd nifer o lyfrau yn trafod gwyddonwyr a meddygon o Gymry. Yn ystod y saith degau bu ganddo (bob yn ail â'r Dr Eirwen Gwynn) golofn reolaidd yn *Y Gwyddonydd*.

Nodweddiad ei waith gan gryn fanylder a chywirdeb ffeithiol a byddai bob amser yn manteisio ar y cyfle i gyflwyno ei ddeunydd mewn fframwaith Gymreig. Heb unrhyw amheuaeth saif O. E. Roberts ysgwydd wrth ysgwydd â J. B. S. Haldane a Ritchie Calder a'u cyffelyb fel lladmerydd gwyddoniaeth i'r darllynydd lleig.



O. E. Roberts a'i wraig, Ffloreus.


Wedi ymdeol, dychwelodd i Gymru i fyw, yn gyntaf i Grietieth ac wedyn i Gaerdydd. Yn y cyfnod hwn dyfarnwyd iddo Ysgoloriaeth Goffa Syr Ifor Williams, yr hyn a'i galluogodd i ymroi i astudio bywyd a gwaith Dr John Dee; cyhoeddwyd ffrwyth ei lafur gan Wasg Gwynedd yn 1980 (*Dr. John Dee 1527-1608*).

## Rhai o Wyddonwyr Cymru

gan  
O. E. ROBERTS

CYHOEDDIADAU MODERN CYMREIG CYF.  
LERPWL A LLANDEWI BRIFF

*Rhai o Wyddonwyr Cymru.*



*Merch y Gelli.*

Cydnabuwyd ei waith arloesol ym myd gwyddoniaeth trwy'r Gymraeg gan Brifysgol Cymru yn 1972 pan ddyfarnwyd iddo'r radd M.A. er anrhydedd. Wrth ei gyflwyno ar gyfer y radd honno, cyfeiriodd Syr John Meurig Thomas at 'y gŵr diymhongar [hwn], ei ddychymyg yn gyfoethog, ei ryddiaith yn farddonol a Beiblaidd.'

Hyd ei farwolaeth bu O. E. Roberts yn aelod brwdfrydig o Gylich Llyfryddol Caerdydd ac yn ffyddlon iawn yng nghyfarfodydd y Cylich – bob amser yng nghwmni ei briod Mrs Ffloreus Roberts, hithau'n awdures gynhyrchiol drwy ei hawl ei hunan. Mae Ffloreus Roberts newydd gyhoeddi ei chyfrol ddiweddaraf (*Merch y Gelli*, Gwasg Pantycelyn, £5) – a hithau'n tynnu at ei 95 oed. Priodol felly yw i'r *Casglwr*, wrth gyhoeddi'r deyrnged hon i O. E. Roberts, fanteisio ar y cyfle i gyfarch Ffloreus Roberts ac estyn iddi bob dymuniad da at y dyfodol.

LLYFRAU PAWB

DIRGELWCH YR  
ATOM

GAN  
O. E. ROBERTS

RHIF  
33

ANTUR GWYDDONWYR

*Dirgelwch yr Atom.*

Y GWR  
O YSTRADGYNLAIS



O. E. ROBERTS

*Y Gŵr o Ystradgynlais.*